No.

# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch, S. Campbell, C.A. Cave, S.J. Haines, N.P. Hodges, S.D. Perkes a R.R. Thomas.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), A. Trousdell (Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), W. Norman (Cyngor Tref Penarth – Eilydd), C. Hadley (Cyngor Cymuned Tregolwyn), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan), Dr. Misra (Cyngor Cymuned Llandochau), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), S. Rich (Cyngor Cymuned Llan-gan – Eilydd), S. Harries (Cyngor Cymunedol Sain Tathan – Eilydd), A. Evans (Cynbgor Cymuned Sain Dunwyd), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn) a N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, P. Drake, A.M. Ernest, H.C. Hamilton ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 396 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 397 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Jj. Aviet, J. Lynch-Wilson a H.M. Payne (Cyngor Bro Morgannwg), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), G. Marks (Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd), A. Phillips (Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro) a S.M. Toker (Cyngor Cymunedol Sain Tathan)

## 398 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

399 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Campbell fuddiant personol yn Eitem Rhif 8 ar yr Agenda – Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg.  Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Campbell yn aelod o'r gweithgor trawsbleidiol a sefydlwyd o fewn y Cyngor i sefydlu pwynt cyfeirio ar gyfer yr adolygiad o ffiniau cymunedol.

400 CYFLWYNIAD A DIWEDDARIAD GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU –

Rhoddodd Prif Swyddog Tân a Thrysorydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gyflwyniad PowerPoint llawn gwybodaeth am y gwaith pwysig a hanfodol a gyflawnodd y Gwasanaeth o fewn cymunedau Bro Morgannwg. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys perfformiad allweddol, ystadegau gweithredol, a chyllidebau, ar gyfer y rhanbarth ac ardal Bro Morgannwg.

O ran Pwysau'r Gyllideb, roedd y Gwasanaeth yn wynebu pwysau o £8.4m mewn costau ac roedd gan ragdybiaethau yn y gyllideb risgiau sylweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol.  Fodd bynnag, roedd disgwyl i bob un o'r 22/23 o orwario gael eu hamsugno gan y Gwasanaeth gyda gwaith adolygu pellach i'w wneud.  Tybiwyd y byddai arian grant gan Lywodraeth Cymru yn parhau.

Roedd swyddogion yn falch o ddweud bod nifer y digwyddiadau gweithredol ar gyfer 2021/22, yn benodol mewn perthynas ag ardal Bro Morgannwg, wedi gostwng 9% ers yr un cyfnod yn 2020/21. Yn yr un modd, roedd nifer y tanau a fynychwyd hefyd wedi gostwng gan 42%.  Roedd nifer y marwolaethau oherwydd tanau dros y cyfnod adrodd yn sero fodd bynnag, roedd nifer yr anafiadau o danau wedi cynyddu'n sylweddol 90% oedd yn bryder.  Dangosodd yr ystadegyn olaf ar gyfer yr ardal fod tanau annedd damweiniol wedi gostwng gan 29%.

I gloi, fe wnaeth Swyddogion hysbysu'r pwyllgor ar heriau'r dyfodol i'r Gwasanaeth fel Gweithredu Diwydiannol, yr Argyfwng Costau Byw, Diwygio Llywodraethu ac Ariannu, uchelgais Llywodraeth Cymru, Newid yn yr Hinsawdd ac Heneiddio a newidiadau yn y boblogaeth.

Yn dilyn y cyflwyniad a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd Swyddogion y canlynol:

- Byddai faint a phwysedd dŵr sydd ei angen ar gyfer pob ymateb yn amrywio ar sail natur y digwyddiad.  Rhannodd y Gwasanaeth bryderon ynghylch pwysedd dŵr ond roedd pympiau/offer ar gael i'r Gwasanaeth ochr yn ochr â'r gallu i bwmpio dŵr o ffynhonnell ddŵr agored, yn lliniaru'r pryderon i raddau sylweddol.
- Roedd y Gwasanaeth hefyd yn cynnig cymorth ymateb cyntaf i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), ond nid oedd hyn yn agwedd o wasanaeth oedd yn codi tâl.  Yn ystod pandemig y Coronafeirws, llwyddodd

y Gwasanaeth i gael gafael ar adnoddau/arian ychwanegol i gefnogi ei waith gyda'r GIG, ond roedd y cymorth hwn bellach wedi dod i ben. Pe bai Llywodraeth Cymru yn newid yn sylfaenol y ffordd roedd y cyllid yn cael ei dderbyn gan y Gwasanaeth yna byddai gofyn i'r Gwasanaeth ofyn am newid y cyllid fodd bynnag, ychydig iawn oedd y gwasanaethau y gellid codi tâl arnynt ar hyn o bryd.

Yn rhinwedd eu swydd fel Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân, diolchodd y Cynghorydd Drake i'r Swyddogion am eu cyflwyniad a throsglwyddo ei diolch diffuant i holl Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r Cyflwyniad PowerPoint / Diweddariad Gwasanaeth a ddarparwyd gan gydweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a diolch yn ddiffuant i holl Swyddogion y Gwasanaeth Tân a gymerodd ran.

401 DIWEDDARIAD LLAFAR GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU –

Gwnaeth yr Arolygydd Henderson hysbysu am y gweithgaredd plismona canlynol yn y Barri a'r Fro fel a ganlyn:

- Ymgyrch USK – Gweithrediad gorfodi ar y cyd ochr yn ochr â Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
- Ymgyrch TAXUS – tîm tarfu aml-asiantaeth. Amrywiol gamau gorfodi a gynhelir ledled Caerdydd a'r Fro ers mis Medi.
- Ymgyrch PAPAYA – Ymchwilio i mewnforio a chyflenwi cyffuriau rhagflaenol ar gyfer Crisialau Meth a GHB.
- 3 ymgyrch gyda BTP yn targedu llinellau cyffuriau, ecsbloetio plant a thrais yn erbyn menywod.
- 3 Ymgyrch twyll fasnachwyr gyda safonau masnach.
- Ymgyrch gyda phlismona'r ffyrdd yn edrych ar ddiogelwch ar y ffyrdd.
- Ymgyrchoedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Heol Holltwn / Sgwâr y Brenin a Pharc Chickenwood yn ogystal â Llanilltud Fawr a'r Bont-faen.
- Ymgyrch gyda phlismona ffyrdd yn arbenigo ar ddiogelwch ar y ffyrdd, gan weithio gyda'r Senedd ynghylch lleoliadau 20mya.
- Ymgyrch Elstree. Ymgyrch Bartneriaeth sy'n rheoli galw tymhorol arfordir y Barri a'r Fro.
- Gwaith ar y cyd gydag Iechyd yr Amgylchedd
- Gwarchod hunanladdiad - gweithio gyda'r Awdurdod Lleol a'r Senedd ac 20 asiantaeth arall.
- Ymgyrch Waxby – lampiau yn y Fro.

Yn dilyn diweddariad llafar yr Arolygydd a'r cwestiynau dilynol a ofynnwyd gan y Pwyllgor, dywedodd yr Arolygydd y canlynol:

- Doedd dim tystiolaeth i awgrymu bod cynnydd wedi bod wrth yrru'n fyrbwyll ers y pandemig cenedlaethol; ni nodwyd unrhyw gynnydd mewn damweiniau nac erlyniad.
- Roedd swyddogion bellach yn weithredol o ystafell yr heddlu yng ngorsaf dân Y Bont-faen ac roedd swyddogion yn ddiolchgar am yr adborth cadarnhaol mewn perthynas ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal y Bont-faen yn cael ei leihau.
- Mae yna droseddau'n ymwneud â gormodedd o sŵn o gerbydau modur sy'n cael eu plismona drwy'r Uned Plismona Ffyrdd. Mae'r uned yn adnodd yr heddlu ac felly'n defnyddio gwybodaeth leol i lywio ei hymgyrchoedd.
- Cafodd Cynllun 'Gan Bwyll' (gwirio cyflymder traffig yn y gymuned) mewn rhannau gwledig o Fro Morgannwg ei atal ym mis Gorffennaf '22 wrth aros am fesurau Iechyd a Diogelwch pellach. Fodd bynnag, roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i adfer y cynllun cyn gynted â phosibl.
- Roedd yn gyffredin i aelodau'r cyhoedd beidio ag adrodd am ddigwyddiadau a gafodd eu hystyried yn rhai nad oedd yn argyfwng neu i ond adrodd am ddigwyddiad ailadroddus unwaith. Roedd ailadrodd yn caniatáu i'r Gwasanaeth greu darlun mwy cywir o'r sefyllfa ar y pryd ac felly'n cynnig yr ymateb mwyaf priodol yn fwy effeithlon. Cydnabuwyd nad oedd gan bob aelod o'r cyhoedd fynediad at ddigon o fand eang i ddefnyddio rhai o'r dulliau adrodd electronig fodd bynnag, roedd sawl ffordd o adrodd am ddigwyddiad.
- Roedd adrodd trwy Dîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor, sydd wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu'r Barri, hefyd yn arf gwerthfawr i helpu Gwasanaeth yr Heddlu a Gwasanaethau'r Cyngor drwy rannu gwybodaeth.
- Hyfforddwyd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a disgwylir iddynt weithredu fel ymateb cyntaf mewn perthynas â digwyddiadau byw o droseddau a gafodd eu hadrodd iddynt gan aelodau o'r cyhoedd. Ar hyn o bryd roedd y Gwasanaeth yn y broses o recriwtio pedwar cant o swyddogion newydd; rhai ohonynt yn swyddi SCCH a fyddai'n cylchdroi o amgylch y gwahanol ardaloedd ym Mro Morgannwg.
- O ran ardaloedd mwy gwledig Bro Morgannwg, roedd rhai swyddi SCCH i fod i gael eu llenwi a fyddai'n gwella gwydnwch y gwasanaeth SCCH yn yr ardaloedd hynny a lleihau'r angen i unedau SCCH gwledig gael eu gosod yn ardal y Barri a oedd â galw mwy.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD – Y dylid diolch i’r Arolygydd Henderson am ei amser a’i ddiweddariad llafar.

402 CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR CYMUMED LLANDOCHAU: CYFLYMDER TRAFFIG –

Ar ran ardal Bro Morgannwg, cafodd cais ei gyflwyno gan Gyngor Cymuned Llandochau yn gofyn am gyflwyniad gan y Pennaeth Priffyrdd ynglŷn ag unrhyw gamau sydd ar gael i leihau cyflymder traffig mewn cymunedau lleol.

Mewn ymateb, rhoddodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Peirianneg gyflwyniad PowerPoint i'r Pwyllgor ar y ffactorau canlynol:

- Roedd gan y cyngor ddyletswydd statudol dan adran 39 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 i ‘gymryd camau i leihau ac atal damweiniau’ cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Er bod gan y cyngor bwerau i osod terfynau cyflymder, roedd gan Heddlu De Cymru bwerau i orfodi cyfreithiau traffig ar y ffyrdd ac unig bwerau i ddelio â chyflymder traffig.
- Er mwyn cyflawni dyletswydd statudol y cyngor uchod, fe wnaeth y cyngor adolygu data gwrthdrawiadau a gasglwyd gan yr heddlu yn rheolaidd a'i ddilysu gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn bwysig deall nad oedd pob gwrthdrawiad ffordd oherwydd cyflymder.
- Roedd ymateb y Cyngor i bryder ynghylch cyflymder traffig yn gyffredinol yn cynnwys asesu hanes gwrthdrawiadau’r ffordd dan sylw dros gyfnod y 3 blynedd ddiwethaf, i gyfeirio'r cyhoedd at adrodd pryderon ynghylch goryrru i'r heddlu, i gyfeirio'r cyhoedd i ofyn am orfodaeth cyflymder drwy GanBwyll ac argymell sefydlu Gwylfa Cyflymder Cymunedol.
- Gallai mesurau tawelu traffig fod yn ddrud a dim ond yn amodol ar argaeledd y gyllideb, lle bu hanes sylweddol o wrthdrawiadau'n ymwneud â chyflymder a lle nad oedd yr heddlu a/neu orfodaeth cyflymder GanBwyll yn mynd i'r afael â'r materion cyflymder.
- Mae rhaid darparu mesurau tawelu traffig yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol. Roedd mathau o dawelu traffig y gellid eu hystyried yn ddibynnol ar gyllideb a materion penodol gan gynnwys arwyddion traffig, marciau ffordd, pyrth, rhwystrau igam-ogamu, ynysoedd traffig, triniaethau arwyneb, twmpathau ffordd, clustogau arafu neu fyrddau arafu, adolygiad o'r terfyn cyflymder, ac arwyddion adborth cyflymder electronig.
- Cafodd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar y terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ei basio yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Gallai awdurdodau priffyrdd osod eithriadau i derfyn cyflymder diofyn 20mya ar ffyrdd dosbarth A a B. Roedd disgwyl i'r cyfyngiad cyflymder diofyn o 20mya gael ei weithredu ar 17 Medi 2023.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Swyddog y canlynol:

- Roedd cyllid eisoes wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru i weithredu unrhyw newidiadau cyflymder o 20mya gafodd eu nodi yn ardal Bro Morgannwg, fodd bynnag, ni ystyriwyd bod lefel y cyllid yn ddigonol ac felly byddai'r Cyngor yn gwneud cais am gyllid ychwanegol lle bo hynny'n bosibl.
- Cydnabuwyd bod y dyddiad cau gweithredu lai na blwyddyn i ffwrdd ac felly roedd angen cryn dipyn o ymgynghori a gwaith yn y dyfodol agos iawn. Roedd briffio i’w gynnal gyda'r Cabinet, Aelodau Ward a Chynghorau Tref a Chymuned drwy fis Tachwedd '22 ar linell amser cyfathrebu Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer cyflwyno manylion ei fapio eithriad diofyn 20mya i wahanol bartïon gan gyhoeddi mapio eithriad 20mya y Fro ar Fap Data Cymru yn ddiweddarach yn 2022 neu ddechrau 2023.

- Byddai'r mapio eithriad a newidiadau i ffyrdd o fewn ffiniau cynghorau cymuned yn cael eu cyflwyno i Gynghorau Tref a Chymuned yn y sesiwn friffio briodol ac yna byddai'r Cyngor yn gallu ymateb i'r Hysbysiadau a gyhoeddwyd mewn perthynas ag unrhyw Orchmynion Rheoli Traffig perthnasol (GRhTau) sy'n gysylltiedig â'r gweithredu diofyn 20mya pan gaiff ei gyhoeddi'r flwyddyn galendr nesaf. Roedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar GRhT yn 21 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi unrhyw Hysbysiad yn unol â'r cyfnod ymgynghori gofynnol statudol.
- Ar gyfer ardaloedd ym Mro Morgannwg nad oedd ganddynt Gyngor Cymuned (megis Y Rhws), gallai Aelodau Ward Etholedig penodol o Gyngor Bro Morgannwg hefyd fynychu sesiwn friffio'r Cyngor Cymuned, er y byddent eisoes wedi cael y wybodaeth mapio eithriadau perthnasol yn sesiwn friffio Aelodau'r Ward yn ogystal â thrwy broses adrodd y Cabinet.

I gloi, mynegodd y Cadeirydd eu pryder dros gyfnod ymgynghori GRhT o 21 diwrnod gan nad oedd hyn yn ffafriol gydag amlder cyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned yn cael eu galw i ystyried GRhT yn effeithlon os oes angen. Mewn ymateb, cynigiodd y Rheolwr Gweithredol dros Beirianneg egluro'r cyfnod statudol gydag Aelodau'r Pwyllgor a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn dilyn y cyfarfod.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD –

(1) Nodi’r cyflwyniad PowerPoint a ddarparwyd i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llandochau.

(2) Rhannu cadarnhad o'r amserlen ymgynghori statudol ar gyfer Gorchmynion Rheoli Traffig gyda holl Aelodau'r Pwyllgor a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar ôl y cyfarfod.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Rhoi sylw i gynnwys y cyflwyniad ac arferion y Cyngor i liniaru pryderon y gymuned dros gyflymder traffig.

(2) Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ystyried amserlenni ymgynghori GRhT mewn perthynas â pha mor aml y mae cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal er mwyn ymateb yn effeithiol ac effeithlon i unrhyw GRhT angenrheidiol a gyflwynwyd mewn ymateb i derfyn cyflymder diofyn 20mya Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth ffyrdd cyfyngedig.

403 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2020-21 (CYF) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Perfformiad Corfforaethol y cyfeiriad o'r Cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o 12 Hydref 2022.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi llunio Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn cipio'r cynnydd a wnaed ym mhedwaredd flwyddyn y Cynllun Lles. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol
drosolwg o'r cynnydd a wnaed gan bartneriaid wrth weithredu'r pedwar Amcan Lles a'r gweithgareddau a nodwyd yn y Cynllun ac yn erbyn ffrydiau gwaith blaenoriaeth y BGC.

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried gan y BGC ar 8 Gorffennaf 2022 ac fe'i atodir i'r adroddiad eglurhaol yn ogystal â'i gyhoeddi ar wefan y BGC.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod yr Adroddiad Blynyddol yn nodi sut roedd y BGC wedi cyflawni cynnydd da wrth gyflawni ei Amcanion Lles hyd yn hyn. Dyma'r bedwaredd flwyddyn i bartneriaid fod yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r Cynllun Lles ac roedd yr enghreifftiau a'r astudiaethau achos yn cynnwys rhoi trosolwg da o waith a wnaed yn ystod cyfnod heriol. Parhaodd y BGC i esblygu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg fel yr argyfwng costau byw ac mae'n parhau i addasu sut maen nhw'n gweithio i gefnogi'r adferiad o COVID-19. Mae'r BGC yn parhau i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac i ystyried yr holl ddysgu a phrofiad a ddatblygwyd ar draws y bartneriaeth, gan ddefnyddio'r profiad hwn ochr yn ochr â thystiolaeth leol a'r Asesiad Lles i nodi'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Lles newydd i'w gyhoeddi yn 2023.

Roedd y BGC yn hyderus drwy gydweithio a thrwy weithio'n wahanol, y byddai'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar les yn y Fro dros flwyddyn olaf y Cynllun Lles presennol a thrwy ddatblygu'r Cynllun Lles newydd.

Yn rhinwedd ei swydd fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned ar y BGC, cynigiodd y Cynghorydd Shirley Hodges werthfawrogiad enfawr am y gwaith a gwblhawyd hyd yma gan y BGC ac anogodd bob Cyngor Tref a Chymuned i ymgysylltu â'r BGC fel llwyfan ymateb defnyddiol a llawn gwybodaeth ar gyfer yr argyfyngau hinsawdd a natur presennol.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

CYTUNWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2021-22 a'r adroddiad Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol atodedig gyda chyfeiriad dilynol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad cwmpasu a'r adroddiad blynyddol i sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gyflawni'r Cynllun Lles presennol.

404 ADOLYGIAD CYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (SCE) –

Dechreuodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer y Cyngor eu cyflwyniad o'r adroddiad trwy gynghori bod dyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf

Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 i adolygu ei gymunedau bob 10 mlynedd. Roedd Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg i fod i ddechrau yn 2019 fodd bynnag, gohiriwyd hyn tan Ionawr 2023 (fel y'i penderfynwyd yng nghyfarfod y cabinet ar 30 Ebrill 2018 gan gyfeirio wedyn at y Pwyllgor ar 3 Gorffennaf 2018) oherwydd amseriad prif adolygiad ardaloedd Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") ar gyfer Bro Morgannwg a'r angen i osgoi'r risg o ddryswch pleidleiswyr yn ystod blynyddoedd etholiad yn 2021 a 2022.

Diben yr adroddiad gerbron y Pwyllgor oedd rhoi rhybudd ymlaen llaw i holl aelodau'r Pwyllgor o'r Adolygiad Cymunedol y disgwylir iddo ddechrau ym mis Ionawr 2023. O ran cynnal yr adolygiad, dywedodd y Swyddog y gall Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru gynnal yr Adolygiad Cymunedol ar ran y prif gyngor a Chyngor Bro Morgannwg wedi gofyn i'r Comisiwn gynnal ei adolygiad fyddai'n para tua 12-18 mis.

'Adolygiad Cymunedol Adran 25' oedd yr adolygiad fel y'i nodir yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gyda'r amcanion canlynol:

- Adolygiad o ffiniau cymunedol yn ystyried unrhyw ddatblygiadau sylfaenol i'r ardal.
- Sicrhau bod cymunedau yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso
- llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- Yn cynnig cyfle i'r prif gyngor roi ar waith ffiniau cryf sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Yn cynnig cyfle i'r prif gyngor gael gwared ar unrhyw ffiniau anomalaidd sy'n bodoli.
-

Ychwanegodd y Swyddog y gallai'r prif gyngor argymell "newidiadau ffiniau cymunedol" ar ddiwedd adolygiad Adran 25. Gall hyn gynnwys newidiadau i ffin cymuned bresennol, ond hefyd diddymu neu gyfuno cymunedau presennol neu greu cymuned newydd. Byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi o ran a oedd angen adolygu trefniadau etholiadol y cymunedau dan Adolygiad Cymunedol Adran 31. Mae trefniadau etholiadol cymuned yn cyfeirio at nifer aelodau'r cyngor cymuned ac unrhyw drefniadau ar gyfer rhannu'r wardiau cymunedol at ddibenion ethol i'r cyngor cymuned. Roedd hyn yn cynnwys nifer yr etholwyr, ffiniau ac enwau'r wardiau a nifer yr aelodau i bob ward.

Pwysleisiodd y Swyddog nad oedd yr adolygiad wedi dechrau eto ac wedi hynny fe wnaeth hysbysu'r Pwyllgor ar y pedwar cam ar gyfer cynnal yr adolygiad fel a ganlyn:

1) Cyhoeddusrwydd cychwynnol – rhoi cyhoeddusrwydd i'r adolygiad, gan dynnu sylw ymgyngoreion gorfodol yn benodol, tynnu sylw at unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad
2) Ymchwilio ac ymgynghori cychwynnol – ymgynghori ag ymgyngoreion gorfodol, cynnal ymchwiliadau, dylai bara rhwng 6 a 12 wythnos

3) Cynigion drafft yn cynnwys cyfnod ymgynghori - adroddiad i'w baratoi sy'n cynnwys manylion yr adolygiad, cynigion penodol, ymgynghoriad i ddilyn, yn para 6 – 12 wythnos.
4) Argymhellion terfynol - adolygu cynigion yn sgil unrhyw sylwadau a wneir yn ystod ymgynghoriad, argymhellion ar gyfer newid/dim newid.

Roedd rheolau rhagnodedig a gafodd eu nodi yn y Ddeddf ar gyfer cynnal adolygiad cymunedol a oedd yn cynnwys ymgynghori ag ymgynghoreion gorfodol ar bob elfen o'r broses.

Rôl y Cyngor cyn trosglwyddo achos i'r Comisiwn oedd cytuno ar gylch gorchwyl rhwng y Comisiwn a'r Cyngor a fyddai'n cynnwys Amserlen ddangosol, Gweithdrefnau a Phroses, Esboniadau o Bolisi Maint y Cyngor, a Chymunedau Grwpiau. Roedd elfen allweddol o'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys sefydlu Polisi Maint y Cyngor drafft ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned. Byddai'r polisi yn nodi'r nifer a argymhellir o etholwyr y dylai cymuned ei chynnwys, yr isafswm (llawr) o gynghorwyr a ddylai gynrychioli cymuned, argymhelliad y dylai cymunedau ddisgyn i un o dri chategori gwledig, trefol, neu gymysg ac etholwr a chymhareb etholwyr i gynghorwyr a argymhellir ar gyfer pob categori.

I gloi, dywedodd y Swyddog y byddai'r Comisiwn Ffiniau hefyd wedi rhoi sylw i nifer yr etholwyr Llywodraeth Leol ym Mro Morgannwg, y boblogaeth bresennol sy'n gymwys i bleidleisio o amcangyfrifon canol y flwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r nifer a ragwelir mewn 5 mlynedd o etholwyr yn seiliedig ar wybodaeth gynllunio.

Yn unol ag argymhelliad ar gyfer coladu Polisi a Chylch Gorchwyl Maint Cyngor Bro Morgannwg, roedd gweithgor trawsbleidiol wedi'i sefydlu'n ddiweddar i ystyried y ddau fater a sicrhau bod yr holl safbwyntiau yn cael eu clywed. Yng nghyfarfod cyntaf y gweithgor, bu cryn dipyn o drafod ar oblygiadau Polisïau Maint cynghorau tref a chymuned ac effaith y rhain ar nifer y Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Swyddog y canlynol:

- Roedd adolygiad Ffiniau Ardal San Steffan a'r Prif Awdurdod eisoes wedi'u cynnal ac felly'r Adolygiad Cymunedol sydd ar ddod oedd y trydydd adolygiad i'w ddilyn. Byddai rhaid i unrhyw Adolygiad Cymunedol roi sylw i'r hyn sydd wedi mynd o'r blaen ac felly, o ran Cymuned Dinas Powys, ymgynghorwyd â hyn cyn gwneud unrhyw argymhellion pellach o dan yr Adolygiad Cymunedol. Doedd hi ddim yn bosib rhoi cyngor chwaith o ran a fyddai Etholaeth Dinas Powys yn symud dan Etholaeth De Caerdydd a Phenarth, dan adolygiad ffiniau San Steffan, gan fod yr argymhellion terfynol yn dal dan ymgynghoriad.
- Roedd yr Adolygiad Cymunedol yn canolbwyntio ar resymeg ffiniau cymunedol ac a oedd y rhain yn dal yn berthnasol neu heb ystyried datblygiadau ar lawr gwlad.
- Fe fyddai costau cyhoeddi a gweinyddol yr adolygiad yn cael eu talu o'r gyllideb bresennol sef Gwasanaethau Cofrestru Etholiadol Cyngor Bro

Morgannwg. Byddai cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy i'r Comisiwn Ffiniau tua £30,000 yn seiliedig ar hysbysebion a hyrwyddo haen 1.
- Ni fyddai'n ofynnol i Gynghorau Tref a Chymuned gyfrannu at gostau'r adolygiad gan fod dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg i ysgwyddo unrhyw gostau cysylltiedig.
- Roedd Polisïau Maint Cynghorau Tref a Chymuned ar gyfer arweiniad yn unig i helpu i lywio penderfyniadau dilynol fel rhan o'r adolygiad fel y byddai Aelodaeth presennol y Cyngor Tref a Chymuned.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD – nodi y rhoddir hysbysiad ymlaen llaw o'r broses ar gyfer, a'r amserlenni perthnasol mewn perthynas ag Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2023.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys yr adroddiad cwmpasu a'r canllawiau ar gyfer Prif Gynghorau ar yr adolygiad o gymunedau gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.